

Rhif: WG32525



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Sicrhau Toriad Treth i Fusnesau Bach: Cynllun Rhyddhad Ardrethi
Newydd ar gyfer Busnesau Bach yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Hydref 2017

Trosolwg	Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw ystyried cynigion polisi i ddarparu cynllun rhyddhad ardrethi newydd ar gyfer busnesau bach (SBRR) yng Nghymru. Bydd y cynllun parhaol hwn yn cael ei gyflwyno o 1 Ebrill 2018 ymlaen i helpu busnesau bach cymwys gyda'u rhwymedigaeth ardrethi annomestig.
Sut mae ymateb	Gellir anfon ymatebion dros e-bost neu eu hanfon yn uniongyrchol at: Cangen Polisi Trethi Lleol Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ E-bost: LGF1Consultations@llyw.cymru
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Mnylion cyswllt	I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at: LGF1Consultations@llyw.cymru Cangen Polisi Trethi Lleol Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ
Diogelu data	Sut byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl

hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu eich cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'r manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

TABL CYNNWYS

1.	RHAGAIR GAN YSGRIFENNYDD Y CABINET AR GYFER CYLLID A LLYWODRAETH LEOL.....	5
2.	RHAGARWEINIAD	6
3.	CEFNDIR	6
	Ardrethi Annomestig yng Nghymru	6
	Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Presennol ar gyfer Busnesau Bach	6
	Creu cynllun newydd.....	8
4.	OPSIYNAU AR GYFER CYNLLUN SBRR PARHAOL NEWYDD YNG NGHYMURU O 2018 YMLAEN.....	8
	i. Ymdrin â busnesau mwy, sydd â mwy nag un eiddo bach, sy'n cael budd o'r SBRR.....	9
	ii. SBRR – Eithriadau Presennol ac yn y Dyfodol	11
	iii. Rhoi Mwy o Gymorth i Fusnesau Bach	12
	iv. Targeddu Cymorth ar gyfer Amcanion Ehangach Llywodraeth Cymru.....	15
	v Ystyriaethau yn y Tymor Hwyl	17
	vi. Targeddu busnesau sy'n cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.....	18
5.	YR LAITH GYMRAEG.....	19
6.	CASGLIADAU	20
7.	Y CAMAU NESAF.....	20
	FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD	21
	ATODIAD A – ESBONIAD O'R CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI AR GYFER BUSNESAU BACH.....	23

1. RHAGAIR GAN YSGRIFENNYDD Y CABINET AR GYFER CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

- 1.1. Yn Symud Cymru Ymlaen, nodwyd ein bwriad i sicrhau'r amodau sydd eu hangen i wneud yn siŵr bod ein busnesau a'n cymunedau'n ffynnu, gan gynnwys ymrwymiad hollbwysig i gyflwyno toriad treth drwy helpu busnesau bach gyda'u biliau ardrethi.
- 1.2. Mae'n amlwg, yn awr fwy nag erioed, fod angen i fusnesau bach gael sicrwydd a gwarchodaeth o safbwynt costau yn y dyfodol. Mae hefyd yn wir fod ardrethi annomestig yn gallu cynrychioli cyfran uwch o orbenion i rai busnesau bach. Dyna pam y byddaf, o 1 Ebrill 2018 ymlaen, yn cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi newydd ar gyfer busnesau bach (SBRR). Bydd hwn yn gynllun parhaol a fydd yn cymryd lle'r trefniadau dros dro sydd wedi cael eu hystyngi bob blwyddyn ers 2010.
- 1.3. Fy nod yw cyflwyno cynllun sy'n rhoi mwy o gymorth i'r rheini sydd ei angen fwyaf – busnesau bach sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o sicrhau twf economaidd a chynnal cymunedau lleol. Rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod y rhyddhad hwn yn cyd-fynd â'r dasg o gyflawni amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, a byddaf yn pwysu a mesur a oes dadl dros roi rhyddhad ychwanegol i sectorau penodol er mwyn galluogi hyn.
- 1.4. Yn 2017-18, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy na £110 miliwn o gymorth ariannol drwy'r SBRR. Mae hyn yn gyfran sylweddol o'r refeniw ardrethi annomestig sy'n cael ei godi yng Nghymru. Bydd yr holl gyllid sy'n dod o ardrethi annomestig yn cael ei ailddosbarthu i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol – gwasanaethau y mae pob busnes yn cael budd ohonynt. Er fy mod yn deall bod busnesau bach yn wynebu pwysau ariannol, mae'n rhaid i bob un ohonom gydnabod ein dyletswydd i gyfrannu at y dasg o gynnal y gwasanaethau y mae ein cymunedau'n dibynnu arnynt. Mae'n rhaid i unrhyw gynllun sy'n cael ei roi ar waith yn y dyfodol fod yn gynaliadwy, a rhaid iddo sicrhau gwerth am arian ac adlewyrchu natur benodol y sylfaen dreth a dosbarthiad busnesau bach yng Nghymru.
- 1.5. Er y bydd y cynllun newydd yn cael ei gyflwyno'n barhaol, byddwn yn parhau i adolygu'r cymorth a ddarperir er mwyn gallu addasu i flaenoriaethau'r Llywodraeth ac anghenion busnes sy'n newid o hyd, yn ogystal â digwyddiadau cyllidol ehangach.
- 1.6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu fy nghynigion ar gyfer cynllun newydd ac yn rhoi cyfle i fusnesau a'u cynrychiolwyr, awdurdodau lleol a threthdalwyr eraill siapio'r modd y caiff y rhyddhad hwn ei gyflwyno yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at eich cyfraniadau ynghylch y mater pwysig hwn.

2. RHAGARWEINIAD

- 2.1. Mae cyflwyno cynllun SBRR parhaol yng Nghymru o 1 Ebrill 2018 ymlaen yn rhan allweddol o fwriad Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau llai yng Nghymru.
- 2.2. Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael barn ystod eang o randdeiliaid ynghylch y cynigion polisi ar gyfer llywodraethol cynllun parhaol. Bydd yr ymatebion a geir i'r ymgynghoriad yn helpu i siapio'r ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei chyflwyno yn ystod y gaeaf i roi'r cynllun ar waith yn y flwyddyn ariannol nesaf (2018-19).

3. CEFNDIR

Ardrethi Annomestig yng Nghymru

- 3.1. Gellir disgrifio ardrethi annomestig fel treth leol sy'n cael ei chodi ar berchnogion a deiliaid eiddo annomestig er mwyn cael refeniw i dalu am wasanaethau'r heddlu a llywodraeth leol.
- 3.2. Mae yna oddeutu 110,000 eiddo annomestig yng Nghymru, ac mae'r ardrethi annomestig yn codi dros £1 biliwn y flwyddyn yng Nghymru. Ar ôl i'r arian hwnnw gael ei gasglu, mae'n cael ei ailddosbarthu'n llawn i awdurdodau lleol a chomisiynwyr heddlu a throseddu.
- 3.3. Defnyddir dau newidyn i gyfrifo biliau ardrethi annomestig:
 - Gwerth ardrethol eiddo, a bennir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n cael ei ailbrisio fel arfer bob pum mlynedd (cynhaliwyd y gwaith ailbrisio diweddaraf ym mis Ebrill 2017); ac
 - Y lluosydd. Caiff hwn ei bennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru yn unol â deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n cynyddu i gyd-fynd â chwyddiant fel arfer. Y lluosydd ar gyfer 2017-18 yw 0.499.
- 3.4. Y cynllun SBRR yw'r cynllun rhyddhad ardrethi annomestig mwyaf yng Nghymru, sy'n darparu oddeutu £110 miliwn o gymorth i fusnesau bach yn 2017-18. Mae amrywiaeth o gynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig gorfodol a dewisol ar gael hefyd sy'n rhoi cymorth i fathau penodol o eiddo neu ddeiliaid; mae'r rhain yn cynnwys rhyddhad i elusennau, rhyddhad ar eiddo gwag, rhyddhad ardrethi'r stryd fawr a rhyddhad trosiannol.

Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Presennol ar gyfer Busnesau Bach

- 3.5. Mae math o gynllun SBRR wedi bod ar waith yng Nghymru ers 2008, yn rhoi rhyddhad ardrethi gorfodol i eiddo yn ôl eu gwerth ardrethol a'u categori defnydd cyffredinol.

- 3.6. Mae'r rhyddhad a roddwyd wedi cael ei gynnal ar ei lefel bresennol ers mis Hydref 2010, pan gyflwynwyd y cynllun fel ymateb polisi dros dro i'r dirwasgiad. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r rhyddhad yn mynd yn ôl i uchafswm o 50% ar ôl i'r dirwasgiad ddod i ben. Darperir ar gyfer hyn mewn deddfwriaeth – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015 – gyda rhyddhad safonol parhaol o hyd at 50% a rhyddhad dros dro ar lefel uwch o hyd at 100%. Eglurir hyn yn fanylach yn Atodiad A. Mae'r lefel uwch hon o ryddhad wedi cael ei hymestyn yn flynyddol a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018.
- 3.7. Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer y rhyddhad canlynol:
- Mae eiddo busnes cymwys gyda gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn cael 100% o ryddhad; ac
 - Mae'r rheini gyda gwerth ardrethol o rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad sy'n lleihau'n raddol o 100% i sero.
- 3.8. Mae rhai mathau o eiddo hefyd yn elwa o lefel ychwanegol o ryddhad :
- Mae Swyddfeydd Post gyda gwerth ardrethol o hyd at £9,000 yn cael 100% o ryddhad, ac mae'r rheini gyda gwerth ardrethol o rhwng £9,001 a £12,000 yn cael 50% o ryddhad;
 - Mae safleoedd gofal plant cofrestredig gyda gwerth ardrethol o rhwng £9,001 a £12,000 yn cael 50% o ryddhad; ac
 - Mae safleoedd manwerthu gyda gwerth ardrethol o rhwng £10,500 a £11,000 yn cael 25% o ryddhad.
- 3.9. Mae rhai mathau o eiddo sydd ddim yn gymwys i gael SBRR, hyd yn oed os yw'r meini prawf gwerth ardrethol yn cael ei fodloni. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo annomestig sy'n cael eu defnyddio gan gyngor, comisiynydd heddlu a throseddu, neu'r Goron; cytiau glan môr; a'r rheini a ddefnyddir dim ond ar gyfer arddangos hysbysebion, manau parcio cerbydau modur, gwaith carthion neu offer cyfathrebu electronig, gan gynnwys peiriannau ATM. Ni fydd eiddo gwag yn cael y rhyddhad chwaith. Dylid nodi bod llawer o'r rhain, er enghraifft eiddo gwag, yn gymwys i gael mathau eraill o ryddhad gorfodol.
- 3.10. Mae'r cynllun SBRR yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol ac mae'n cael ei roi'n awtomatig ar filiau talwyr ardrethi cymwys.

Creu cynllun newydd

- 3.11. Bydd y cynllun newydd yn seiliedig ar yr ailbrisiad diweddaraf ar 1 Ebrill 2017, a bydd yn ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael am newidiadau i werthoedd ardrethol a'r defnydd a wneir o eiddo annomestig yng Nghymru (y sylfaen dreth).
- 3.12. Wrth lunio cynigion ar gyfer cyflwyno'r cynllun parhaol o 1 Ebrill 2018 ymlaen, mae'r paramedrau canlynol wedi cael eu hystyried:
- Cyd-fynd ag egwyddorion treth Llywodraeth Cymru¹;
 - Y gallu i gyflawni o fewn y cwrpas cyllido presennol (oddeutu £110 miliwn y flwyddyn ynghyd â'r cynnydd blynyddol mewn chwyddiant);
 - Cynllun sy'n adlewyrchu'r sylfaen dreth a dosbarthiad busnesau bach yng Nghymru;
 - Cynnig cymorth cyson ledled Cymru;
 - Mynd ati'n effeithiol i dargedu adnoddau cyfyngedig Llywodraeth Cymru i'r rheini sydd wir angen yr adnoddau hynny;
 - Sicrhau bod y cynllun yn syml ac yn dryloyw fel bod talwyr ardrethi yn ei ddeall ac fel bod awdurdodau lleol yn gallu ei weinyddu;
 - Cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion ehangach Llywodraeth Cymru.
- 3.13. Er y bydd y cynllun newydd yn cael ei gyflwyno ar sail barhaol, bydd yn cael ei adolygu er mwyn cael yr hyblygrwydd i addasu i anghenion ac amgylchiadau busnesau bach yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r anghenion a'r amgylchiadau hynny newid. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygu a phrofi syniadau mwy radical na fydd modd eu cyflwyno o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae rhai o'r syniadau hyn yn cael eu disgrifio yn adran 4(iv).

4. OPSYNAU AR GYFER CYNLLUN SBRR PARHAOL NEWYDD YNG NGHYMRU O 2018 YMLAEN

- 4.1. Mae rhoi rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn ymrwymiad ariannol o bwys i Lywodraeth Cymru. Gan ystyried blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a phwysau ariannol parhaus, bydd y cynllun newydd yn cael ei gynllunio o fewn y cwrpas cyllido blynyddol o £110 miliwn sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- 4.2. Mae SBRR yng Nghymru yn cael ei ariannu'n llwyr gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn wahanol i Loegr a'r Alban lle, fel y dangosir yn Nhabl 1, mae'r lluosydd uwch yn gymwys i fusnesau mwy o faint i ran-ariannu'r cymorth a ddarperir i fusnesau bach.

¹ <http://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/?skip=1&lang=cy>

Tabl 1: Lluoswyr Busnesau Bach, 2017-18

Gwlad	Lluosydd Busnes Bach	Lluosydd (GA > £51k)
Lloegr	46.6c	47.9c
Yr Alban	46.6c	49.2c

- 4.3. Gellid rhannu'r lluosydd yng Nghymru i gynhyrchu arian ychwanegol ar gyfer SBRR. Fodd bynnag, natur y sylfaen dreth yng Nghymru a dosbarthiad busnesau bach yn golygu y gallai nifer bach o fusnesau mawr yn wynebu baich treth anghymesur pe baent yn destun lluosydd uwch i helpu ariannu cymorth ar gyfer busnesau llai. Hefyd, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer newidiadau o'r math hwn.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- C1. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn eich barn am y presennol a'r dyfodol ariannu SBRR yng Nghymru, gan gynnwys sut y lluosyddion yn gweithredu.**
- 4.4. I fwy effeithiol targed rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a fyddai'n elwa fwyaf o gymorth ariannol, neu sy'n helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ehangach, mae angen ystyried a oes modd rhyddhau unrhyw arian gan rai o'r rhai sy'n elwa ar hyn o bryd o SBRR, i'w ail-fuddsoddi yn y cynllun newydd.
- i. Ymdrin â busnesau mwy, sydd â mwy nag un eiddo bach, sy'n cael budd o'r SBRR**
- 4.5. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun SBRR yng Nghymru yn rhoi rhyddhad i bob eiddo sy'n gymwys heb gyfyngu'r rhyddhad o'i gymharu â sawl eiddo bach sydd gan y busnes. Mae hyn yn golygu y gall siop cadwyn genedlaethol gael budd o ryddhad ar gyfer pob eiddo bach sydd ganddi ledled Cymru.
- 4.6. Mae hyn yn wahanol i'r gynlluniau SBRR sydd ar waith mewn gweinyddiaethau eraill. Mae'r rhain yn gosod rhyw fath o gyfyngiad cymhwysedd naill ai ar niferoedd yr eiddo sydd gan gwmni neu gyfanswm y rhyddhad y gall cwmni ei gael. Er enghraifft, mae Cynllun Bonws Busnesau² Bach Llywodraeth yr Alban yn cyfyngu rhyddhad i dri eiddo i bob busnes, ar yr amod bod cyfanswm y gwerth ardrethol i gyd gyda'i gilydd yn is na therfyn penodol.
- 4.7. Prif fantais y dull gweithredu presennol yng Nghymru yw ei fod yn hawdd ei ddeall a'i weinyddu. Fodd bynnag, mae hyn yn cynyddu costau'r cynllun o'i gymharu â chynlluniau sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r DU. Nid yw o

² Mae manylion llawn ynghylch Cynllun Bonws Busnesau Bach yr Alban ar gael yn: <https://www.mygov.scot/business-rates-relief/small-business-bonus-scheme/>

reidrwydd yn ffordd effeithiol o dargedu adnoddau cyfyngedig fel rhan o gynllun sydd wedi'i gynllunio i gefnogi busnesau bach.

- 4.8. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfyngu'r rhyddhad sydd ar gael i fusnesau sydd â mwy nag un eiddo bach y maent yn cael SBRR ar ei gyfer. Nid mesur i arbed costau yw hwn. Bydd unrhyw gyllid sy'n cael ei ryddhau drwy gyfyngiad o'r fath yn cael ei ail-fuddsoddi'n llawn i wneud rhannau eraill o'r cynllun newydd yn fwy hael.
- 4.9. Byddai modd cyflwyno cyfyngiad o'r fath mewn dwy brif ffordd:
 - Cyfyngu rhyddhad i nifer benodol o eiddo i bob busnes ledled Cymru; neu
 - Cyfyngu rhyddhad i nifer benodol o eiddo i bob busnes mewn awdurdod lleol.
- 4.10. Wrth asesu'r opsiynau hyn, mae angen ystyried nifer o ffactorau. Mae'n anochel y ceir cyfaddawd amlwg rhwng faint o gyllid y gellid ei ryddhau i wneud y cynllun newydd yn fwy hael a nifer y talwyr ardrethi sy'n cael budd o'r rhyddhad. Nid yw'r opsiwn cyntaf mor hael â'r ail un, ac mae'n debygol o eithrio mwy o eiddo annomestig rhag bod yn rhan o'r cynllun SBRR. Mae hefyd yn debygol o gael mwy o effaith ariannol ar fusnesau sydd ar hyn o bryd yn cael rhyddhad ar gyfer mwy nag un eiddo - gallai hyn effeithio ar nifer bach o fusnesau bach a chanolig llwyddiannus yn ogystal â siopau cadwyn cenedlaethol. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhai sy'n gweithredu masnachfreintiau yn cael eu heffeithio'n negyddol.
- 4.11. Mae angen edrych yn ofalus iawn ar oblygiadau gweinyddol a chyfyngu ar lwybrau posibl ar gyfer camddefnydd.
- 4.12. Drwy gyfyngu rhyddhad i nifer benodol o eiddo yng Nghymru, mae hyn yn debygol o beri i'r rhyddhad gael ei weinyddu ar sail cais, yn hytrach na chael ei roi yn syth ar y bil. Mae hyn oherwydd er mwyn penderfynu a yw rhywun yn gymwys i gael y rhyddhad ai peidio, byddai'n rhaid i awdurdodau lleol weld nad yw busnes yn cael rhyddhad ar gyfer eiddo mewn ardal awdurdod lleol arall. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod efallai na fydd cynllun ar sail ceisiadau yn arwain at fanteisio i'r eithaf ar y rhyddhad gan bob busnes sy'n gymwys a gall arwain at ofynion gweinyddol ychwanegol ac felly costau. Efallai y bydd yn gynllun ar sail ceisiadau hefyd gadael y cynllun yn agored i gam-drin posibl lle byddai angen gwirio cymhwysedd ar draws ardaloedd yr awdurdodau a systemau bilio.
- 4.13. Ar y llaw arall, pe bai'r cynllun yn gweithio ar sail awdurdod lleol yn hytrach nag ar lefel Cymru gyfan, byddai llai o oblygiadau o safbwynt gweinyddu.

- 4.14. Fodd bynnag, byddai cyfyngu rhyddhad i nifer penodol o eiddo ar draws Cymru, yn hytrach nag ar sail awdurdod, rhyddhau mwy o arian ar gyfer ei ail-fuddsoddi mewn ardaloedd eraill y cynllun. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i dargedu cymorth yn fwy effeithiol i fusnesau llai. Fel y cyfryw, hon yw'r dull a ffeirir ar gyfer y cynllun newydd.
- 4.15. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y gallai effeithio busnes ag eiddo lluosog sydd ar hyn o bryd yn derbyn SBRR pe byddai rhyddhad yn gyfyngedig i nifer penodol o eiddo ar sail awdurdod neu ar sail Cymru gyfan.
- 4.16. Enghraifft – Effaith Posibl
Mae gan Fusnes A ugain eiddo ledled Cymru sy'n gymwys i gael SBRR ac sydd wedi'u lleoli yn gyfartal ar draws pedair ardal awdurdod lleol gwahanol. O dan y cynllun presennol SBRR mae pob safle yn derbyn £3,000 ac mae'r busnes yn cael cyfanswm o £60,000 o ryddhad SBRR.

Pe bai SBRR wedi eu cyfyngu i un eiddo bob busnes yng Nghymru, yna byddai busnes A dim ond yn cael rhyddhad ar un o'i 20 eiddo. Byddai busnes yn derbyn cyfanswm o £3,000 o ryddhad, gostyngiad o £57,000.

Pe bai SBRR wedi eu cyfyngu i un eiddo fesul busnes fesul awdurdod lleol, yna byddai busnes A yn gymwys ar gyfer rhyddhad ar bedair o'i 20 eiddo. Byddai'n cael cyfanswm o £12,000 o ryddhad, gostyngiad o £48,000.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 4.17. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn eich safbwyntiau ar y bwriad i osod cyfyngiad ar fusnesau sy'n gymwys i gael SBRR ar gyfer mwy nag un eiddo yng Nghymru, yn benodol:

C2. Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi terfyn ar faint o ryddhad y gall busnes sydd â mwy nag un eiddo bach yng Nghymru yn ei gael? Os ydych, i ba raddau rydych chi'n meddwl y dylid cyfyngu ar hyn?

C3. Beth yw'r goblygiadau gweinyddol a thechnegol sy'n gysylltiedig â'r dull a ffeirir gan Lywodraeth Cymru y bydd angen eu hystyried?

C4. Gofynnir am sylwadau am yr effeithiau (cadarnhaol neu er gwaeth) y gallai terfyn o'r fath eu cael ar dalwyr ardrethi y mae'r rhyddhad hwn yn effeithio arnynt neu dalwyr ardrethi sy'n cael eu heithrio rhag cael y rhyddhad hwn.

ii. SBRR – Eithriadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 4.18. Mae nifer o eithriadau sy'n berthnasol i'r cynllun presennol. Mae'r rhain yn bennaf ar gyfer mathau o eiddo sydd ddim yn cyd-fynd â'r diffiniad o fusnes

bach. Mae rhai o'r eithriadau hefyd yn cydnabod y ffaith bod rhai mathau o eiddo yn gymwys i gael mathau eraill o ryddhad.

4.19. Mae eithriadau i'r cynllun SBRR presennol yn cynnwys:

- Hereditamentau (eiddo annomestig) cyngor, comisiynydd heddlu a throseddu, neu'r Goron;
- Cytiau glan môr;
- Hereditamentau a ddefnyddir dim ond ar gyfer arddangos hysbysebion, manau parcio cerbydau modur, gwaith carthion neu offer cyfathrebu electronig, gan gynnwys peiriannau ATM.

4.20. I fod yn gymwys ar gyfer SBRR, mae gofyn bod eiddo yn cael ei ddefnyddio hefyd. Mae eiddo sydd ddim yn cael ei ddefnyddio yn gymwys i gael Rhyddhad Eiddo Gwag.

4.21. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig newid yr eithriadau sy'n bodoli ar hyn o bryd i'r cynllun SBRR, ond mae'n dymuno ystyried a ddylid cyflwyno unrhyw eithriadau eraill, yn enwedig ar gyfer y mathau o eiddo sydd ddim yn cyd-fynd ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth yr Alban ar hyn o bryd yn eithrio unrhyw fath o fusnes sy'n gysylltiedig â benthyciadau diwrnod cyflog o'i gynllun³. Eto, os cyflwynir rhagor o eithriadau, bydd unrhyw gyllid fydd yn cael ei ryddhau yn cael ei ail-fuddsoddi yn y cynllun.

4.22. Wrth ystyried hyn, dylid nodi y byddai cynyddu'r mathau o fusnesau sy'n cael eu heithrio rhag cael y rhyddhad yn effeithio ar nifer y talwyr ardrethi sy'n cael budd o'r cynllun. Gallai hyn hefyd arwain at oblygiadau i ardaloedd lle ceir niferoedd uchel o'r mathau hyn o eiddo. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau gweinyddol hefyd i awdurdodau lleol os nad yw'n hawdd adnabod eiddo sydd wedi'i eithrio drwy'r systemau bilio a bod angen delio â phob achos fesul un.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

4.23. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid rhoi eithriadau ychwanegol i'r cynllun ar waith, yn benodol:

C5. A oes unrhyw fathau o fusnes y dylid, yn eich barn chi, eu heithrio o'r cynllun newydd ac, os felly, pam?

C6. Beth yw'r goblygiadau gweinyddol wrth gyflwyno mwy o eithriadau?

iii. Rhoi Mwy o Gymorth i Fusnesau Bach

³ Mae Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Codi ardoll) (Yr Alban) 2017 yn darparu na cheir rhoi unrhyw ryddhad ardrethi yng nghyswllt tiroedd ac etifeddiaethau a ddefnyddir ar gyfer benthyciadau diwrnod cyflog

- 4.24. Drwy ryddhau cyllid ar gyfer ail-fuddsoddi, drwy'r naill opsiwn a ddisgrifir uchod, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu targedu cymorth i fusnesau bach yn well. Y bwriad yw cynyddu maint y rhyddhad y gellir ei roi i fusnesau bach, heb gynyddu cost gyffredinol y cynllun.
- 4.25. Wrth ystyried yr opsiynau posibl ar gyfer gwneud y cynllun newydd yn fwy hael i fusnesau bach cymwys, rhaid ystyried natur benodol anghenion sylfaen dreth Cymru. Mae'n cynnwys eiddo gwerth is yn bennaf. Mae'n bwysig cofio hefyd fod y cynllun SBRR yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i'r cynlluniau yn Lloegr a'r Alban sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan luosydd uwch ar fusnesau mwy⁴.
- 4.26. Rhaid i unrhyw newidiadau fod yn hawdd i dalwyr ardrethi eu deall a chael eu gweithredu erbyn 1 Ebrill 2018. Fel y cyfryw, mae'r opsiynau posibl yn seiliedig ar strwythur a pharamedrau'r cynllun presennol. Dyma rai opsiynau hyfyw:
- Cynyddu'r trothwy ar gyfer 100% o ryddhad (y trothwy is), er enghraifft ei godi o £6,000 i £8,000;
 - Cynyddu'r trothwy uwch ar gyfer rhyddhad, er enghraifft ei godi o £12,000 i £13,000; a
 - Cyfuniad o'r ddau, er enghraifft cynyddu'r trothwy is i £8,000 a'r trothwy uwch i £13,000.
- 4.27. Mae Tabl 2 yn rhoi amcangyfrif o gostau ychwanegol yr opsiynau hyn, nifer ychwanegol y talwyr ardrethi a fyddai'n dod yn rhan o'r cynllun rhyddhad, a nifer y talwyr ardrethi a allai elwa o gael mwy o ryddhad.

Tabl 2: Effaith cynyddu'r trothwyon ar gyfer y cynllun SBRR

	Cost ychwanegol (£M)	Talwyr ardrethi sy'n cael rhyddhad	Talwyr ardrethi sy'n cael budd o fwy o ryddhad
Opsiwn 1 – Trothwy is ar gyfer 100% o ryddhad wedi cynyddu o £6,000 i £8,000	13	-	18,000
Opsiwn 2 – Trothwy uwch wedi cynyddu o £12,000 i £13,000	9	2,000	16,000
Opsiwn 3 – Trothwy is wedi cynyddu i £8,000 a'r trothwy uwch wedi cynyddu i £13,000	21	2,000	18,000

⁴ Mae manylion llawn y llooswyr sydd ar waith yn Lloegr ar gael yma <https://www.gov.uk/calculate-your-business-rates>

Mae manylion llawn y llooswyr yn yr Alban ar gael yma: <https://www.mygov.scot/business-rates-guidance/how-your-rates-are-calculated/>

4.28. Mae Tabl 3 yn rhoi enghreifftiau o effeithiau ariannol yr opsiynau hyn ar dalwyr ardrethi sy'n cael SBRR ar hyn o bryd.

Tabl 3: Effaith newidiadau i'r trothwyon ar gyfer y cynllun SBRR

Gwerth Ardrethol	Rhwymedigaeth gyfredol ar ôl SBRR	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3
£8,000	£1,331	£0	£1,141	£0
£11,000	£4,574	£4,117	£3,921	£3,293

4.29. Fel y gellir gweld o Dablau 2 a 3, mae effeithiau gwahanol yn berthnasol i'r opsiynau hyn.

- Byddai cynyddu'r trothwy is ar gyfer rhyddhad yn golygu y byddai mwy o fusnesau'n gymwys ar gyfer 100% o ryddhad. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw fusnesau ychwanegol yn elwa a byddai'r lleihad graddol yn byrhau. Mae hyn yn golygu y byddai'r cymorth yn cael ei dynnu'n ôl ar gyfradd ychydig yn uwch am bob £1 o gynnydd yn y gwerth ardrethol. Dyma'r opsiwn fyddai'n costio leiaf.
- Byddai cynyddu'r trothwy uwch yn golygu y byddai mwy o fusnesau'n gymwys ar gyfer rhyddhad, ond ni fyddai'n cynyddu'r nifer a fyddai'n elwa o 100% o ryddhad. Mae mwy o leihad graddol hefyd sy'n golygu y byddai'r cymorth yn cael ei dynnu'n ôl yn arafach.
- Mae cynyddu lefel is a lefel uwch y lleihad graddol yn golygu bod mwy o fusnesau'n cael rhyddhad ac yn cynyddu'r nifer a fyddai'n cael 100% o ryddhad. Ychydig o effaith fyddai hyn yn ei chael ar y lleihad graddol. Dyma'r opsiwn fyddai'n costio fwyaf.

4.30. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r goblygiadau posibl i'n cynllun ardrethi rhyddhad trosiannol⁵ pe byddai trothwyon y cynllun SBRR yn cael eu haddasu. Cyflwynwyd rhyddhad trosiannol o 1 Ebrill 2017 ymlaen i helpu talwyr ardrethi lle'r oedd yr ailbrisiad wedi effeithio er gwaeth ar eu hawl i gael SBRR. Mae rhyddhad trosiannol yn cynnig cymorth drwy gyflwyno unrhyw gynnydd a ddisgwylir mewn rhwymedigaeth yn raddol dros gyfnod o dair blynedd (mae talwyr ardrethi yn talu 25% o'r rhwymedigaeth uwch ym Mlwyddyn 1, 50% ym Mlwyddyn 2 a 75% ym Mlwyddyn 3).

4.31. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau nad yw talwyr ardrethi sy'n cael rhyddhad trosiannol yn wynebu anfantais yn sgil newidiadau i drothwyon y cynllun SBRR. Croesewir sylwadau ar oblygiadau gweinyddol a thechnegol o ran y cyswllt rhwng y cynllun SBRR newydd â rhyddhad trosiannol.

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/1247/contents/made>

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 4.32. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn cael barn am yr opsiynau i roi cymorth ychwanegol i fusnesau bach drwy'r cynllun newydd, yn benodol:
- C7. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn rhyddhau adnoddau o'r cynllun presennol i roi cymorth ychwanegol i fusnesau bach cymwys o dan y cynllun newydd, yn seiliedig ar yr opsiynau a ddisgrifir ym mharagraff 4.26, sut dylid ail-fuddsoddi'r adnoddau hyn i gefnogi busnesau bach yn fwy effeithiol?**
- C8. A oes unrhyw oblygiadau gweinyddol neu dechnegol y dylid eu hystyried wrth newid y trothwyon rhyddhad presennol?**
- C9. Beth yw'r goblygiadau gweinyddol a thechnegol posibl wrth gyflwyno cynllun parhaol newydd a'r cyswllt rhyngddo â rhyddhad trosiannol?**
- iv. Targedu Cymorth ar gyfer Amcanion Ehangach Llywodraeth Cymru**

Safleoedd manwerthu

- 4.33. O dan y cynllun presennol, rhoddir rhyddhad ychwanegol i safleoedd manwerthu sydd â gwerth ardrethol o rhwng £10,501 a £11,000, lle mae rhyddhad o 25% yn gymwys yn hytrach na'r lleihad graddol safonol. Mae rhagor o fanylion am darddiad y rhyddhad hwn a'i natur benodol i'w gweld yn Atodiad A.
- 4.34. Yn ôl y dadansoddiad, mae llai na 100 o dalwyr ardrethi yn elwa o'r rhyddhad uwch hwn ar hyn o bryd ac, fel y gwelir yn Nhabl 5, digon cymedrol yw'r budd ariannol. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cael gwared ar y rhyddhad uwch hwn. Bydd hyn hefyd yn symleiddio ystyriaethau gweinyddol ac ystyriaethau meddalwedd y cynllun parhaol. Bydd unrhyw arian a ryddheir yn cael ei ail-fuddsoddi i wneud y cynllun yn fwy hael i dalwyr ardrethi eraill.

Tabl 4: Effaith y Rhyddhad i Safleoedd Manwerthu

	Rhyddhad Safonol SBRR	Rhyddhad y Sector Manwerthu
Gwerth Ardrethol	£10,750	£10,750
Gwerth SBRR	£1,117	£1,341
Rhwymedigaeth Ardrethi Annomestig	£4,247	£4,023

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

- C10.** Rydym yn awyddus i gael barn am gael gwared ar y rhyddhad uwch ar gyfer safleoedd manwerthu sydd â gwerth ardrethol o rhwng £10,501 a £11,000.
- C11.** A oes unrhyw oblygiadau gweinyddol neu dechnegol y dylid eu hystyried wrth newid rhyddhad y sector manwerthu?

Safleoedd gofal plant

- 4.35. Mae Symud Cymru Ymlaen⁶ yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o ofal plant am ddim i rieni oed gweithio sydd â phlant 3-4 oed am 48 wythnos y flwyddyn. Y bwriad yw cael gwared ar y rhwystrau rhag cael gwaith a helpu'r rheini sy'n awyddus i weithio neu ddechrau busnes ond sy'n cael eu hatal ar hyn o bryd gan bwysau gofal plant.
- 4.36. Ar hyn o bryd, mae 466 o safleoedd gofal plant yng Nghymru yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig. Mynegwyd pryderon gan y diwydiant⁷ fod ardrethi annomestig yn effeithio'n arbennig ar feithrinfeydd dydd oherwydd eu bod yn dueddol o fod mewn adeiladau mwy er mwyn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant. Golyga hyn fod eu gwerthoedd ardrethol yn gymharol uwch, yn aml iawn, na busnesau bach eraill. Er enghraifft, gwerth ardrethol safle gofal plant yng Nghymru ar gyfartaledd yw £13,500.
- 4.37. O dan y cynllun SBRR presennol, mae safleoedd gofal plant cofrestredig sydd â gwerth ardrethol o rhwng £9,001 a £12,000 yn elwa o gael lefel ryddhad ychwanegol, a chael 50% yn hytrach na'r lleihad graddol safonol.
- 4.38. Mae Tabl 2 yn dangos mai oddeutu 39% o safleoedd gofal plant sy'n gymwys i gael SBRR llawn neu rannol. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r mwyafrif o safleoedd gofal plant yn cael SBRR.

Tabl 5: Safleoedd Gofal plant sy'n cael SBRR

Nifer yr eiddo	SBRR llawn	SBRR rhannol	Dim SBRR	Swm SBRR (£)
466	56	124	286	432,000

- 4.39. I gefnogi'r gwaith o wireddu'r ymrwymiad i ddarparu 30 awr o ofal plant, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried darparu rhagor o gymorth i'r mathau hyn o eiddo drwy'r cynllun SBRR. Mae gwahanol ffyrdd o ddarparu hyn:

⁶ <http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy>

⁷ [http://www.ndna.org.uk/NDNA/News/Reports and surveys/Annual Nursery Survey/2017.aspx](http://www.ndna.org.uk/NDNA/News/Reports%20and%20surveys/Annual%20Nursery%20Survey/2017.aspx)

- cynnig 100% o ryddhad i bob safle gofal plant sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000; neu
- gyflwyno gwahanol drothwyon rhyddhad ar gyfer safleoedd gofal plant, er enghraifft 100% o ryddhad hyd at £9,000 a rhyddhad graddol hyd at £16,000.

4.40. Mae'r dull cyntaf yn cynnig swm ychwanegol o ryddhad ar gyfer rhai darparwyr gofal plant ond nid yw'n dod â budd i'r busnesau hynny sydd ddim yn cael SBRR ar hyn o bryd. Nid yw'r ail dull yn effeithio ar y rheini sy'n cael rhyddhad ar hyn o bryd ond mae'n cynyddu nifer y safleoedd gofal plant sydd â'r hawl i gael rhywfaint o gymorth i dalu eu biliau ardrethi. Mae hwn hefyd yn dull drutach.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

C12. Rydym yn awyddus i gael barn ynghylch a ddylai'r sector gofal plant gael rhyddhad ychwanegol, ar ben yr hyn a ddarperir o dan y cynllun SBRR presennol er mwyn cefnogi'r gwaith o wireddu'r ymrwymiad i ddarparu 30 awr o ofal plant?

C13. Pe byddai rhyddhad ychwanegol yn cael ei roi i'r sector gofal plant, gan ystyried yr opsiynau a ddisgrifir yn 4.39, sut dylai hyn gael ei ddarparu drwy'r cynllun SBRR?

C14. A oes unrhyw oblygiadau gweinyddol neu dechnegol y dylid eu hystyried wrth ddarparu rhyddhad ychwanegol i'r sector hwn?

v Ystyriaethau yn y Tymor Hwyl

4.41. Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Polisi Treth⁸ a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r fframwaith yn nodi'r bwriad i gymryd dull blaengar, teg ac, uwchlaw popeth, tryloyw tuag at drethi yng Nghymru. Cyflawni cynllun parhaol ar gyfer busnesau bach yw elfen bwysig o fewn y cynllun gwaith hwn. Mae hefyd yn ffurfio rhan o'n diwygiad ehangach o system cyllid Llywodraeth Leol, drwy amrywiaeth o fesurau tymor byr, canolig, a hir, er mwyn sicrhau bod y trefniadau ariannu sy'n sail i wasanaethau lleol yn parhau i fod yn addas at y diben. Bydd y gwaith tymor hwyl yn cynnwys ystyried mecanweithiau eraill i godi referniw ar gyfer gwasanaethau lleol, gan gynnwys mathau eraill o drethi lleol. Byddwn yn ymgynghori ar y cynigion hyn wrth iddynt gael eu datblygu.

4.42. Tra bydd math parhaol o gefnogaeth i fusnesau bach yn cael ei gyflwyno o 1 Ebrill 2018 ymlaen, bydd rhaid i'r cynllun hwn fod yn ddigon hyblyg i gael ei addasu i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau Cymru a fydd yn newid dros y

⁸ <http://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/?lang=cy>

blynyddoedd, yn enwedig amodau economaidd. Gan ei fod yn ymrwymiad ariannol mawr, bydd y cynllun newydd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn rhoi cyfle i edrych ar opsiynau nad oes modd eu cynnig erbyn 1 Ebrill 2018.

- 4.43. Er y bydd unrhyw newidiadau i'r cynllun parhaol yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd sylwadau ar y meysydd polisi a nodir isod i helpu i lywio'r cynigion tymor hirach.

Rhyddhad Am Amser Cyfyngedig

- 4.44. Un maes y mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn ystyried yw a ddylai holl fusnesau cymwys gael rhyddhad ar sail barhaol neu a ddylai'r rhyddhad fod yn gyfyngedig o ran amser o dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, gellid darparu rhyddhad i ddechrau busnesau yn ystod y cyfnod sefydlu a'r cymorth i'w cael ei dynnu'n ôl yn raddol wrth i fusnesau ddod yn hunangynhaliol. Ystyrir tynnu cymorth yn raddol gan Lywodraeth Gogledd Iwerddon fel rhan o'i gymorth newydd ar gyfer busnesau bach.⁹
- 4.45. Cydnabyddir bod yna rai busnesau bach sy ddim â'r gallu na'r awydd i ehangu ond sy'n darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r gymuned leol. Byddai angen i unrhyw gynigion polisi'r dyfodol ystyried hwn.
- 4.46. Mae darparu rhyddhad i rai trethdalwyr ar sail amser cyfyngedig yn helpu i sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei dargedu'n effeithiol a gallai arwain at gyllid ychwanegol ar gyfer mathau eraill o ryddhad neu wasanaethau lleol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

C15. Rydym yn ceisio barn ar y posibilrwydd o gyflwyno cefnogaeth am amser cyfyngedig ar gyfer rhai trethdalwyr a dynnwyd yn ôl yn raddol. Beth yw manteision ac anfanteision dull gweithredu o'r fath?

vi. Targedu busnesau sy'n cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

- 4.47. Fel y nodir yn adran, mae Llywodraeth Cymru â diddordeb mewn ystyried sut gallai gymorth ar gyfer busnesau bach yn cael ei defnyddio i helpu i gyflawni blaenoriaethau ehangach. Yn y tymor hwy, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn ymchwilio i gefnogaeth ar gyfer busnesau sydd yn, neu yn gweithio tuag at, aliniad â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac o fudd cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol i Gymru. Gallai ystyriaethau o'r fath gynnwys y canlynol:

Cymdeithasol:

⁹ https://www.finance-ni.gov.uk/sites/default/files/consultations/dfp/SBRR%20Discussion%20Paper%20%283%29_1.pdf

- Cefnogaeth i fusnesau sy'n talu'r cyfraddau cyflog byw'r Living Wage Foundation.¹⁰
- Cefnogaeth i fusnesau sydd wedi'u nodi gan Dasglu'r Cymoedd¹¹ yn hyrwyddo adfywio a thwf economaidd yn y rhanbarth.

Economaidd:

- Ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau economaidd, er enghraifft y cynllun presennol SBRR a gyflwynwyd fel ymateb i'r dirwasgiad 2010
- Cefnogi busnesau sy'n ysgogi twf economaidd a cefnogi creu mwy o gyflogaeth

Amgylcheddol

- Cefnogi busnesau sy'n helpu i ddarparu rhaglen datgarboneiddio Llywodraeth Cymru

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

C16. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael barn gyffredinol am ddarparu cefnogaeth i fusnesau sy'n cefnogi, neu'n gweithio tuag at gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ehangach ac yn gofyn am gynigion eraill i ddatblygu'r cynllun yn y dyfodol.

5. YR LAITH GYMRAEG

5.1. Gofynnir am sylwadau am yr effaith (gadarnhaol neu er gwaeth) y byddai'r cynigion hyn am ryddhad parhaol yn yr ardrethi i fusnesau bach yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.2. Yn ogystal â hynny, rydym yn gofyn am sylwadau ynghylch a fyddai modd ffurfio neu ddiwygio'r cynnig fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu lai o effeithiau er gwaeth ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C17. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
- ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

C18. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig fel ei fod yn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd

¹⁰ <https://www.livingwage.org.uk/>

¹¹ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/?lang=cy>

- i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a**
- ii) dim effeithiau er gwaeth o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

6. CASGLIADAU

- 6.1 Y bwriad yw creu cynllun cynaliadwy sy'n cyflawni ymrwymiad y rhaglen Symud Cymru Ymlaen ac y gellir ei gyflwyno o fewn y cwmplas cyllido presennol. Rhaid iddo fod yn deg â thalwyr ardrethi, yn gyson ac yn hawdd ei ddeall a'i weithredu.
- 6.2 Rhaid i'r cynllun newydd helpu hefyd i gyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'n cynrychioli swm sylweddol o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru. Fel y cyfryw, rhaid iddo helpu i ddarparu gwasanaethau lleol cynaliadwy, ffyniant a thwf economaidd.
- 6.3 Bwriad y cynigion hyn yw cynnig cynllun sy'n adlewyrchu natur busnesau bach yng Nghymru ac sy'n ymateb i anghenion busnesau, yn awr ac yn y dyfodol.

7. Y CAMAU NESAF

- 7.1 Bydd yr ymgynghoriad yn para am gyfnod o 12 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid i edrych yn llawn ar oblygiadau ymarferol y cynigion, yn enwedig yr ystyriaethau ariannol, gweinyddol, deddfwriaethol a'r ystyriaethau o ran y system.
- 7.2 Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd pob ymateb yn cael ei ddadansoddi a'i ddefnyddio fel sail i'r ddeddfwriaeth a fydd yn darparu ar gyfer y cynllun newydd o 1 Ebrill 2018 ymlaen.
- 7.3 Er mwyn rhoi digon o rybudd i dalwyr ardrethi allu cynllunio'n ariannol a digon o amser i awdurdodau lleol a'u darparwyr meddalwedd ymgorffori'r cynllun newydd yn eu prosesau bilio, cynigir bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyflwyno ym mis Rhagfyr 2017. Fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â chrynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad.

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / Rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn clywed eich sylwadau ynghylch y cynigion polisi ar gyfer cynllun SBRR parhaol newydd, yn enwedig yng nghyswllt elfennau technegol cynnal cynllun o'r fath; y goblygiadau gweinyddol ac unrhyw brosesau neu weithdrefnau y bydd angen eu hystyried.

- C1. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn eich barn am y presennol a'r dyfodol ariannu SBRR yng Nghymru, gan gynnwys sut y lluosyddion yn gweithredu.
- C2. Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi terfyn ar faint o ryddhad y gall busnes sydd â mwy nag un eiddo bach yng Nghymru yn ei gael? Os ydych, i ba raddau rydych chi'n meddwl y dylid cyfyngu ar hyn?
- C3. Beth yw'r goblygiadau gweinyddol a thechnegol sy'n gysylltiedig â'r dull a ffefrir gan Lywodraeth Cymru y bydd angen eu hystyried?
- C4. Gofynnir am sylwadau am yr effeithiau (cadarnhaol neu er gwaeth) y gallai terfyn o'r fath eu cael ar dalwyr ardrethi y mae'r rhyddhad hwn yn effeithio arnynt neu dalwyr ardrethi sy'n cael eu heithrio rhag cael y rhyddhad hwn.
- C5. A oes unrhyw fathau o fusnes y dylid, yn eich barn chi, eu heithrio o'r cynllun newydd ac, os felly, pam?
- C6. Beth yw'r goblygiadau gweinyddol wrth gyflwyno mwy o eithriadau?
- C7. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn rhyddhau adnoddau o'r cynllun presennol i roi cymorth ychwanegol i fusnesau bach cymwys o dan y cynllun newydd, yn seiliedig ar yr opsiynau a ddisgrifir ym mharagraff 4.26, sut dylid ail-fuddsoddi'r adnoddau hyn i gefnogi busnesau bach yn fwy effeithiol?
- C8. A oes unrhyw oblygiadau gweinyddol neu dechnegol y dylid eu hystyried wrth newid y trothwyon rhyddhad presennol?

- C9. Beth yw'r goblygiadau gweinyddol a thechnegol posibl wrth gyflwyno cynllun parhaol newydd a'r cyswllt rhyngddo â rhyddhad trosiannol?
- C10. Rydym yn awyddus i gael barn am gael gwared ar y rhyddhad uwch ar gyfer safleoedd manwerthu sydd â gwerth ardrethol o rhwng £10,501 a £11,000.
- C11. A oes unrhyw oblygiadau gweinyddol neu dechnegol y dylid eu hystyried wrth newid rhyddhad y sector manwerthu?
- C12. Rydym yn awyddus i gael barn ynghylch a ddylai'r sector gofal plant gael rhyddhad ychwanegol, ar ben yr hyn a ddarperir o dan y cynllun SBRR presennol er mwyn cefnogi'r gwaith o wireddu'r ymrwymiad i ddarparu 30 awr o ofal plant?
- C13. Pe byddai rhyddhad ychwanegol yn cael ei roi i'r sector gofal plant, gan ystyried yr opsiynau a ddisgrifir yn 4.39, sut dylai hyn gael ei ddarparu drwy'r cynllun SBRR?
- C14. A oes unrhyw oblygiadau gweinyddol neu dechnegol y dylid eu hystyried wrth ddarparu rhyddhad ychwanegol i'r sector hwn?
- C15: Rydym yn ceisio barn ar y posibilrwydd o gyflwyno cefnogaeth am amser cyfyngedig ar gyfer rhai trethdalwyr a dynnwyd yn ôl yn raddol. Beth yw manteision ac anfanteision dull gweithredu o'r fath?
- C16. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael barn gyffredinol am ddarparu cefnogaeth i fusnesau sy'n cefnogi, neu'n gweithio tuag at gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ehangach ac yn gofyn am gynigion eraill i ddatblygu'r cynllun yn y dyfodol.
- C17. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:
- iii) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
 - iv) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?
- C18. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig fel ei fod yn cael:
- iii) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
 - iv) dim effeithiau er gwaeth o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- C19. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch y blwch hwn:

ATODIAD A – ESBONIAD O'R CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI AR GYFER BUSNESAU BACH

Mae'r rhyddhad a roddwyd wedi cael ei gynnal ar ei lefel bresennol ers mis Hydref 2010, pan gyflwynwyd y cynllun fel ymateb polisi dros dro i'r dirwasgiad. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r rhyddhad yn mynd yn ôl i uchafswm o 50% ar ôl i'r dirwasgiad ddod i ben. Darperir ar gyfer hyn mewn deddfwriaeth, gydag elfen barhaol o ryddhad o hyd at 50% ac elfen o ryddhad uwch dros dro o hyd at 100%. Rhoddir rhyddhad ychwanegol i sectorau penodol, er enghraifft swyddfeydd post. Rhoddwyd darpariaeth arbennig i sicrhau na fyddai dim un o'r sectorau hyn o dan anfantais yn sgil cyflwyno'r rhyddhad uwch dros dro.

	Elfen barhaol o ryddhad – Cyflwynwyd o Ebrill 2010 ymlaen	Elfen rhyddhad uwch dros dro – Cyflwynwyd o fis Hydref 2010 ymlaen a'i ymestyn bob blwyddyn
Rhyddhad Safonol i bob eiddo heblaw'r rheini sydd wedi'u rhestru ar wahân isod	Gwerth Ardrethol o hyd at £2,400 – 50% o ryddhad Gwerth Ardrethol o rhwng £2,401 a £7,800 – 25% o ryddhad	Gwerth Ardrethol o hyd at £6,000 – 100% o ryddhad Gwerth Ardrethol o rhwng £6,001 a £12,000 – rhyddhad sy'n lleihau'n raddol o 100% i sero
Swyddfeydd Post	Gwerth Ardrethol o hyd at £9,000 – 100% o ryddhad Gwerth Ardrethol o rhwng £9,001 a £12,000 – 50% o ryddhad	Yn parhau i fod ar yr elfen barhaol - mwy o fudd
Gofal plant	Gwerth Ardrethol o rhwng £2,000 a £12,000 – 50% o ryddhad	Gwerth Ardrethol o hyd at £6,000 – 100% o ryddhad Gwerth Ardrethol o rhwng £6,001 a £9,000 – rhyddhad sy'n lleihau'n raddol o 100% i 50% Gwerth Ardrethol o rhwng £9,001 a £12,000 – 50% o ryddhad
Manwerthu	Gwerth Ardrethol o rhwng £7,801 a £11,000 – 25% o ryddhad	Gwerth Ardrethol o hyd at £6,000 – 100% o ryddhad Gwerth Ardrethol o rhwng £6,001 a £10,500 – rhyddhad sy'n lleihau'n raddol o 100% i 25% Gwerth Ardrethol o rhwng £10,501 a £11,000 – 25% o ryddhad Gwerth Ardrethol o rhwng £11,001 a £12,000 – rhyddhad sy'n lleihau'n raddol o 25% i 0